

MARCIO SGRIPTIAU ARHOLIAD

PROSES SICRHAU ANSAWDD

Arholwyr yn mynychu cynhadledd hyfforddi wyneb yn wyneb.

Arholwyr yn derbyn hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r cynllun marcio gan gynnwys marcio sgriptiau ymgeiswyr. Dan arweiniad yr Uwch Arholwr (UA) a/neu Arweinwyr Tim (AT).

Sgriptiau wedi'u marcio fesul eitem ar sgrin

Arholwyr yn marcio 8 'had' i bob eitem. Mae 'hadau' eisoes wedi'u marcio ymlaen llaw gan arholwr profiadol. Ni fydd yr arholwr yn gallu gweld y marc a ddyrannwyd.

Os bydd arholwr yn methu â marcio nifer digonol o hadau'n gywir, yna bydd yn cael ei atal rhag marcio.

Ar ôl ei atal, bydd yr arholwr yn trafod y materion â'r AT neu UA. Bydd angen iddo farcio eitemau pellach cyn gallu mynd ymlaen i farcio'n fyw ar y system.

Ar ôl symud ymlaen i farcio'n fyw ar y system, bydd arholwr yn derbyn hadau ar wahanol adegau yn ystod y broses farcio gyfan.

Os nad yw arholwr yn marcio eitem i'r safon ofynnol, mae'n cael ei atal rhag parhau i farcio'r eitem honno tan y bydd yn trafod y materion â'r AT/UA. Efallai y bydd rhai arholwyr yn cael eu heithrio'n barhaol rhag marcio eitemau penodol. Os nad ydyn nhw'n marcio unrhyw eitemau'n gywir, ni fyddan nhw'n cael marcio unrhyw eitemau.

Bydd yr SP yn adolygu perfformiad pob arholwr a defnyddir gwybodaeth o'r adolygiad hwnnw fel rhan o'r broses wahodd ar gyfer y gyfres nesaf.

Sgriptiau wedi'u marcio yn y ffordd draddodiadol

Mae'r arholwr yn marcio 10 sgript o'i ddyraniadac yn eu hanfon at yr AT neu UA.

Mae'r AT/UA yn rhoi adborth i'r arholwr. Os nodir unrhyw broblemau ar ei 10 sgript ddechreuol gall yr UA/AT ofyn am sgriptiau ychwanegol i'w hadolygu.

Unwaith y bydd yn marcio i'r safon ofynnol, bydd yr arholwr yn marcio'r sgriptiau ac yn anfon y traean cyntaf o'i sgriptiau wedi'u marcio at yr AT/UA.

Mae'r AT/UA yn adolygu 25 o'r traean cyntaf o'r sgriptiau a farciwyd gan yr arholwr ar draws yr amrediad o farciau. Llenwir pro forma ac adroddiad adborth ar bob arholwr.

Mae'r Swyddog Pwnc (SP) a'r UA yn adolygu'r adborth ar farcio pob arholwr ac yn penderfynu:

- a fydd y marciau a ddarparodd yr arholwr yn cael eu dyfarnu i'r ymgeiswyr
- a fydd y marciau o fewn ystod benodol neu ar draws yr ystod gyfan yn cael eu haddasu
- a fydd arholwr profiadol yn ail-farcio sgriptiau'r arholwr.